Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Cofnodion Cymeradwy
# Cyfarfod Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr
# a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024, drwy gyfrwng Timau

**Mynychwyr:**

Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol

| | |
|---|---|
| Mr R Davies (RD) – Cadeirydd | Rheolwr Grŵp - Strategaeth, Cynllunio a Chefnogaeth |
| Ms Emma Giles (EG) – Ysgrifennydd | Uwch Swyddog Gwasanaethau Disgyblion |
| Ms R Garner (RG) | ADY (Angehnion Dysgu Ychwanegol) Arweinydd Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu a CMMI (Namau Meddygol ac Echddygol Cymhleth) |

Cynrychiolwyr Ysgolion (wedi'u rheoli gan y gymuned ac yn wirfoddol)

| | |
|---|---|
| Mr R Pawar (RP) | Pennaeth, Ysgol Gyfun Bryntirion |
| Mrs K John (KJ) | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla |
| Ms Delyth Davies | Pennaeth Dros Dro, Ysgol y Ferch o'r Sgêr |

Cynrychiolwyr Ysgolion (gwirfoddol a gynorthwyir)

| | |
|---|---|
| Mr A Howells (AH) | Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath |

Cynrychiolwyr Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Ms Clare Werrett (CW) | Arweinydd Addysg Dros Dro yr Esgobaeth ar gyfer Esgobaeth Llandaf |

Aelodau ychwanegol

| | |
|---|---|
| Ms C Christy (CC) | Swyddog Derbyniadau Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Mrs M Treharne (MT) | Cydlynydd Ymgysylltu Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |

## 1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod a gwnaed y cyflwyniadau.

Nodwyd ymddiheuriadau gan SS, BD, y Cynghorydd Martyn Jones (Cyng MJ) ac AR. Yn absennol heb ymddiheuriadau Ms Claire Bloomfield (CB) a Ms Rebecca Owens (RO).

Croeso i aelodau newydd - CW.

## 2. Ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd ar gyfer blwyddyn ysgol 2024-2025

Cafwyd cais gan EG am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd.

Cynigiwyd RD ac EG fel Cadeirydd dros dro ac Ysgrifennydd. Cymeradwywyd y cynnig gan bawb oedd yn bresennol. Derbyniodd RD ac EG y rolau ar gyfer blwyddyn addysgol 2024-2025. Nid oedd unrhyw enwebiadau wedi dod i law ar gyfer rôl Is-gadeirydd a nodwyd y byddid yn ailymweld â hyn yn ystod tymor y gwanwyn.

## 3. Aelodaeth y fforwm ar gyfer blwyddyn ysgol 2024-2025

Cyfeiriodd EG at Atodiad B, sef y ddogfen oedd yn manylu ar aelodaeth arfaethedig y fforwm ar gyfer 2024-2025.

Tynnodd EG sylw at y newidiadau o blith aelodau'r fforwm y llynedd:

| | |
|---|---|
| Y Cyng Jon-Paul Blundell (Cyng JPB) | Mae'r Cyng JPB wedi ei ddisodli fel Aelod Cabinet dros Addysg gan y Cynghorydd MJ. |
| Mr John Tarran (JT) | Mae Pennaeth Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru wedi ymddeol ac mae angen dod o hyd i gynrychiolydd newydd. Rhoddodd KJ wybod i'r fforwm fod Mrs Carmen Beveridge (CBe), pennaeth Ysgol Gynradd Gatholig St. Robert wedi mynegi diddordeb i ddod yn aelod. EG i estyn gwahoddiad i gyfarfod tymor y gwanwyn. |
| Ms Rebecca Morteo (RM) | Nid yw'r Arweinydd Addysg Esgobaethol Dros Dro ar gyfer Esgobaeth Llandaf bellach yn ei swydd ac mae CW wedi ymgymryd â'r rôl ac wedi ymuno gyda Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr fel aelod newydd. |

EG i ddiweddaru Aelodaeth Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr; atodiad A i adlewyrchu'r newid hwn.

## 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2024 a materion yn codi

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.

## 5. Rhaglen waith ddrafft 2024-2025

Cyflwynodd EG ddrafft o'r rhaglen waith, oedd yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r fforwm, fel y'u nodir yn y Cod Derbyniadau i Ysgolion, a chynigiodd ffordd y gallai'r fforwm ryddhau'r cyfrifoldebau hynny yn ystod blwyddyn ysgol 2024-2025. Tynnwyd sylw at y ffaith fod dau gyfarfod wedi'u cynnig ar gyfer y flwyddyn er mwyn cydymffurfio gyda dyletswyddau statudol y fforwm, gyda thrydydd cyfarfod i'w amserlennu ar gyfer tymor yr haf.

Amlygodd EG bod rhai agweddau o waith y rhaglen yn ddibynnol ar wybodaeth yn cael eu darparu gan yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, er enghraifft, cyfraniadau ar gyfer y Prosbectws Dechrau Ysgol.

Cynghorodd EG nad oedd y templed ar gyfer adroddiad blynyddol y fforwm wedi'i dderbyn eto gan Lywodraeth Cymru, ond bod amserlenni blaenorol ar gyfer darparu adroddiad blynyddol ar gyfer 2024-2025 i Lywodraeth Cymru yn awgrymu diwedd Tachwedd.  EG i gylchredeg yr adroddiad blynyddol drafft i'r holl aelodau ar gyfer derbyn adborth, unwaith mae'r templed wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Holodd RD a oedd Llywodraeth Cymru'n darparu unrhyw adborth ar yr adroddiad blynyddol. Cadarnhaodd EG na dderbyniwyd unrhyw adborth ar adroddiad y llynedd.

## 6. Polisi Derbyniadau i Ysgolion Drafft 2026-2027 - awdurdod lleol

Amlinellodd EG mai'r ddogfen sylfaenol oedd polisi 2025-2026, gyda'r holl newidiadau arfaethedig ar gyfer 2026-2027 yn rhai y gellir eu holrhain.  Gwahoddwyd cwestiynau a thrafodaeth ar unrhyw newidiadau arfaethedig, ond nodwyd mai newidiadau bach iawn oedd nifer o'r rhain, megis dyddiadau. Roedd y newidiadau a amlygwyd fel a ganlyn:

- Mae gan Adran 7 newid bach i'r geiriad ynghylch trefniadau cludiant er mwyn mynychu ysgolion mewn awdurdodau lleol eraill er mwyn darparu eglurder o ran bod yr adran hon yn cyfeirio at drefniadau cludiant, nid trefniadau derbyn.
- Mae'r holl newidiadau wedi cael eu newid i adlewyrchu 2026-2027.

Cadarnhaodd EG nad oedd unrhyw newidiadau i'r Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig (PAN) ar gyfer 2026-2027.

Rhoddodd EG wybod i'r fforwm unwaith y byddent wedi cytuno ar y polisi derbyn drafft, y byddai'n cael ei anfon at yr esgobaethau, awdurdodau lleol cyfagos ac i'r cyrff llywodraethu i ymgynghori arno, gydag amserlen o un mis, a chyda'r bwriad ei fod yn mynd i gyfarfod Cabinet Ionawr 2025 ar gyfer penderfynu arno.

Tynnodd RG sylw at y ffaith fod yr adran ynghylch datganiadau o anghenion dysgu ychwanegol neu gynlluniau datblygu unigol angen ei diweddaru ar gyfer Polisi Derbyn Ysgol 2027-2028, gan y dylai'r trawsnewid o ddatganiadau fod wedi'i gwblhau yn ystod 2026-2027.  Cytunodd y fforwm i gadw'r wybodaeth fel ag y mae yn y Polisi Derbyn Ysgol 2026-2027, rhag ofn bod unrhyw ohirio wrth drosglwyddo i'r cynlluniau dysgu unigol.

Holodd NT a ddylai'r adran, o safbwynt symudiadau a reolir gyfeirio at y Panel Mynediad Teg Prif Ffrwd.  Cadarnhaodd RD bod y protocol symud a reolir yn brotocol drafft, felly bydd angen dilyn hyn i fyny y tu allan i gyfarfod y fforwm.

Gwahoddwyd aelodau i roi sylwadau ar unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig a holwyd a oedd y fforwm yn cytuno gyda'r polisi. Cytunwyd ar y polisi drafft gan y fforwm a chymeradwywyd iddo symud ymlaen i'r cam ymgynghori.

## 7. Polisïau Derbyn Drafft ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir 2025-2026

Cyfeiriodd RD at y polisïau drafft oedd wedi cael eu dosbarthu i aelodau a chyfrifoldeb y fforwm i sicrhau bod yr holl bolisïau'n cydymffurfio gyda'r Cod Derbyn i Ysgolion.

Tynnodd EG sylw at y pwyntiau canlynol ynghylch polisïau ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir:

**Terminoleg ar gyfer addysgu grefyddol ac addoli ar y cyd** - yn flaenorol gwnaeth y Cyfarwyddwr Addysg ymholiad ynghylch y derminoleg yma ac mae cyngor pellach wedi'i geisio gan y Rheolwr Grŵp (Ysgolion) a Chonsortiwm Canolbarth y De. Y cyngor a dderbyniwyd yw y dylai 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' fed ar wahân i 'Addoli ar y Cyd', oherwydd y newidiadau yn yr 'hawl i dynnu'n ôl, ac maent wedi darparu hwn fel enghraifft sydd hefyd yn cynnwys dolenni pellach ar gyfer gwybodaeth gefnogol:
**Enghraifft**

**Crefydd, gwerthoedd a moeseg**
Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg yn bwnc academaidd o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad y dyniaethau ac mae'n ganolog i'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau mae dysgwyr yn eu cael yn ein hysgolion. Mae'r cwricwlwm crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol ag addysgu enwadol ac arfer yr Eglwys yng Nghymru, ynghyd â gofynion gorfodol a statudol y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.
Gellir canfod rhagor o wybodaeth ynghylch hyn ym mhrosbectws yr ysgol yn yr adran crefydd, gwerthoedd a moeseg a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad y dyniaethau ynghyd â Chanllawiau crefydd, gwerthoedd a moeseg, sydd i'w canfod i gyd ar Hwb ac ar wefan yr Eglwys yng Nghymru.

**Addoli ar y cyd**
Mae Gweithred Ddyddiol Addoli ar y Cyd yn ffocws canolog y profiad ysbrydol mae dysgwyr yn ei dderbyn yn yr ysgol. Mae'r Addoli ar y Cyd yn unol ag addysgu enwadol ac arfer yr Eglwys yng Nghymru.

- Mae polisi **Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru** yn un estynedig ac mae'n debyg iawn i bolisi derbyn yr awdurdod lleol, sy'n ddefnyddiol i rieni sydd angen cyfeirio at fwy nag un polisi wrth ystyried gwneud cais.
  **Newidiadau**
  Mae **tudalen 12** yn darllen '*Ni fydd unrhyw geisiadau ar gyfer cylch derbyn 2026-2027 sy'n cael eu derbyn gan y corff llywodraethu wedi 31 Awst 2024 yn cael eu prosesu.'* Bydd angen newid hwn i 31 Awst 2026.
  Mae tudalen 15, hysbysiadau i ymgeiswyr ynghylch cynnig neu wrthod llefydd angen nodi dyddiad Dydd Iau 16 Ebrill 2026 er mwyn cydymffurfio gyda'r Cod Derbyn i Ysgolion. Bydd hyn yn gwneud y dyddiad cyflwyno apêl yn Ddydd Iau 14 Mai 2026.

- Mae polisi Ysgol Gynradd Gatholig St Robert yn sylfaenol iawn ac mae diffyg gwybodaeth ynghylch dyddiadau priodol ynghylch pryd a sut i ymgeisio/apelio.

- Mae gan Ysgol Gynradd Gatholig St Mary's bolisi ar gyfer dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ond dim dyddiad ar gyfer pan mae'r cylch yn agor.

- Yn gyffredinol, mae'r polisïau'n canolbwyntio ar gylchoedd derbyn, gydag ond ychydig iawn o fanylion mewn perthynas â derbyniadau yn ystod y flwyddyn.

  Awgrymodd RD fod angen peth gwaith er mwyn darparu dull mwy safonol ar draws yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir o safbwynt eu polisïau derbyn.

  Cadarnhaodd CW ar hyn o bryd bod proses ar waith o gasglu'r polisïau ar gyfer yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, nid dim ond ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ond ar draws esgobaeth Llandaf a Mynwy.

  Nododd AH bod y clerc i'w panel apeliadau derbyniadau yn edrych ar eu polisi derbyn ac yn darparu cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n gyfreithiol.

  Awgrymodd KJ gan fod nifer o benaethiaid newydd/dros dro o fewn y clwstwr ffydd y byddai'n darparu cyfle i'r polisïau gael eu hadolygu fel clwstwr, i rannu arfer da ac yn y blaen.

## 8. Diweddariad trefniadau derbyn i'r ysgol wedi'u cydlynu

Rhoddodd EG wybod i'r aelodau bod yr awdurdod lleol ar hyn o bryd yn y broses o ddrafftio trefniadau derbyn i'r ysgol wedi'u cydlynu ar gyfer blwyddyn ysgol 2027-2028, sydd angen cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru erbyn 1 Ionawr 2025 a'i roi ar waith erbyn 28 Chwefror 2025.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y dylai pob awdurdod lleol benderfynu ar ei gyfnod ymgynghori ei hun ac na fyddai angen i'r ymgynghoriad fod yn un cyhoeddus. Dim ond gyda'r fforwm derbyn a'r cyrff llywodraethu o fewn yr awdurdod lleol sydd angen i'r ymgynghoriad fod. Mae'r canllawiau hefyd yn datgan bod ymgynghori gydag unrhyw awdurdod lleol arall yn debygol o gael ei effeithio gan y cynllun wedi'i gydlynu. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru os nad ydym yn debygol o fod â cheisiadau oddi allan i'r sir i ysgolion gwirfoddol a gefnogir, yna doedd dim angen ymgynghori gydag awdurdodau lleol eraill.

Rhoddodd EG wybod i'r aelodau y bydd fersiwn drafft o'r trefniadau derbyn i'r ysgol wedi'u cydlynu yn cael ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori arno'n fuan.

Eglurodd RD bod amser dychwelyd tynn ar gyfer hyn fyddai'n cael ei benderfynu arno gan y Cabinet yn ystod cyfarfod mis Rhagfyr. Y cyngor gan Wasanaethau Cyfreithiol yr awdurdod lleol yw bod yn rhaid i'r fframwaith gael ei gymeradwyo gan y Cabinet oherwydd ei fod yn cefnogi'r polisi derbyn y mae'r Cabinet eisoes yn penderfynu arno. Bydd angen i'r broses hon fod wedi'i hymgorffori yn yr amserlen yn y dyfodol. Cytunodd y fforwm i gyfnod ymgynghori o bythefnos.

## 9. Diweddariad Grŵp Derbyniadau Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (ADEW)

Cynghorodd EG yr aelodau o'r eitemau trafod canlynol yn y cyfarfod Grŵp Derbyniadau ADEW ar 05 Gorffennaf 2024 wedi eu dileu.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar 14 Medi ac 18 Hydref 2024 ac roeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar Drefniadau Derbyn i'r Ysgol wedi'u Cydlynu:

- Mae'r rheoliadau diwygiedig nawr wedi eu gosod a byddant yn dod i rym ar 4 Tachwedd. Nid yw'r diwygiadau hyn yn effeithio ar unrhyw ganllawiau sydd eisoes wedi'u darparu.

- Eglurodd Llywodraeth Cymru nad oedd yna unrhyw ddyletswydd gyfreithiol o safbwynt ceisiadau traws-ffiniol a bod y ddeddfwriaeth ond yn effeithio ceisiadau o fewn eich awdurdod lleol eich hun.

- Mynegwyd pryder wrth Lywodraeth Cymru ynghylch dyddiad cau 31 Hydref ar gyfer y cylchoedd Uwchradd, gan fod hyn yn golygu bod angen agor y cylch ar ddechrau Medi neu, fe awgrymwyd, ar ddiwedd Gorffennaf hyd yn oed. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith nad oedd digon o amser ar gael i ddilyn fyny ceisiadau ac i gefnogi ceisiadau ar gyfer dysgwyr bregus. Nododd Llywodraeth Cymru bod 31 Hydref wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth ac felly bod yn rhaid cadw ato.

- Bydd gan ddyddiad 31 Hydref hefyd oblygiadau ar gyfer cyhoeddi'r Prosbectws Dechrau Ysgol, gan fod angen ei gyhoeddi 6 wythnos cyn i'r cylch agor, sy'n golygu dyddiad cyhoeddi cyn i'r ysgol gau ar gyfer tymor yr haf.

- Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y gallai'r ceisiadau hwyr gael eu trin gan yr awdurdod lleol fel rhan o'r cynllun wedi'i gydlynu. Codwyd cwestiynau ynghylch sut fyddai hyn yn gweithio dros wyliau'r haf, gyda cheisiadau'n cael eu derbyn hyd at 31 Awst ac na fyddai'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn gallu rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am unrhyw lefydd a gynigir. Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi derbyn hysbysiad yn ysgrifenedig gan gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir, os nad yw gormodedd o geisiadau am lefydd eu bod wedi rhoi'r awdurdod i'r awdurdod lleol i gynnig lle ar eu rhan. Os oes gormod o geisiadau ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, byddai prosesu ceisiadau hwyr dros gyfnod yr haf yn gallu bod yn broblem a gallai ohirio cynigion, yn arbennig felly lle mae angen ystyried dewisiadau o ysgolion eraill.

Mynegodd y penaethiaid oedd yn aelodau o'r fforwm bryderon ynghylch sut y byddai'r amserlennu oedd yn angenrheidiol gan y trefniadau derbyn wedi'u cydlynu yn cael effaith ar nosweithiau agored a digwyddiadau pontio ar gyfer yr ysgolion.

Nododd CC y problemau posib ynghylch cynnwys ceisiadau hwyr yn y trefniadau yma a'r goblygiadau ar gyfer apeliadau.

Pwysleisiodd RD unwaith eto nad oedd yr awdurdodau lleol yn tynnu unrhyw gyfrifoldeb oddi ar yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac y byddent yn parhau i fod angen penderfynu ar gynnig/gwrthod llefydd er mwyn cydymffurfio gyda'u meini prawf gorlenwi.

Gwnaeth AH gais am eglurder ynghylch dyddiadau. Cadarnhaodd RD bod y trefniadau hyn ar gyfer derbyniadau 2027-2028. Mae yna ddyddiadau y manylir arnynt yn y ddeddfwriaeth ynghylch y dyddiadau cau ar gyfer y cyfnod derbyniadau ac nid oes unrhyw newidiadau i'r dyddiadau 'Diwrnod Cynnig'. Mae'r holl ddyddiadau eraill yn y trefniadau drafft yn ddyddiadau prosesu a awgrymwyd ac mae lle i drafod ynghylch y rhain.

## 10. Unrhyw Fater Arall

Holodd RD a ddarparwyd unrhyw ddiweddariadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch Cod Derbyniadau Ysgol diwygiedig. Cadarnhaodd EG nas oes unrhyw ddiweddariadau pellach.

Diweddarodd RD y fforwm ynghylch y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol newydd sy'n dod i rym ym mis Medi 2025 a bod darn sylweddol o waith ei angen er mwyn cynghori rhieni ynghylch y newidiadau.

## 11. Dyddiad y cyfarfod nesaf

4 Chwefror 2025 - i'w gadarnhau

Diolchodd RD i bob un o'r mynychwyr am eu presenoldeb a'u cyfraniadau. Daeth y cyfarfod i ben am 3.15pm.